

Archifau Morgannwg



DARGANFOD Y GORFFENNOL

1 Mawrth 2016- 28 Chwefror 2017



Cynnwys



<i>Cyflwyniad</i>	<i>2</i>
<i>Y Casgliad</i>	<i>5</i>
<i>Ymgysylltu</i>	<i>8</i>
<i>Mynediad</i>	<i>10</i>
<i>Staff</i>	<i>14</i>
<i>Y dyfodol</i>	<i>16</i>

Cyflwyniad

Croeso i'n 7fed Adroddiad Blynyddol sy'n disgrifio gweithgareddau Archifau Morgannwg yn ystod y cyfnod o 1 Mawrth 2016 hyd at 28 Chwefror 2017

Newyddion i'w Groesawu!

Efallai y byddwch yn cofio 2016 fel blwyddyn o dristwch yn y maes diwylliant poblogaidd ac ymraniad gwleidyddol ond i Archifau Morgannwg mae wedi bod yn gyfle i ailgydio yn yr awenau gyda llawer i fod yn falch ohono.

Gwobrwywyd blynyddoedd o gynllunio â chais llwyddiannus am gyllid i'r Wellcome Trust i gynorthwyo â phroject i ddiogelu a chatalogio cofnodion y Bwrdd Glo Cenedlaethol. Yn £203,456, dyma'r ail Grant Adnoddau Ymchwil mwyaf i'w ddyfarnu yn y DU, a'r mwyaf erioed i'w ddyfarnu yng Nghymru. Cerdd gan Mervyn Peake roddodd y teitl i'r project, *Glamorgan's Blood: Dark Arteries, Old Veins*. Mae'r cyllid yn talu am staff a deunyddiau, archifydd am 3 blynedd i gatalogio a chadwraethwr am 2 flynedd i fynd i'r afael ag anghenion cadwraeth y casgliad.

Mae casgliad y Bwrdd Glo Cenedlaethol yn un o'r mwyaf sydd gennym. Er gwaetha'r cymhorthion caffael sy'n gallu peri dryswch ar brydiau, dyma'r pumed casgliad a ddefnyddir fwyaf. Mae ei gynnwys o ddiddordeb i gasglwyr achau, ymchwilwyr academiaidd a defnyddwyr tystiolaethol. Mae wedi bod yn arbennig o bwysig i brojectau adfywio sy'n adeiladu ar dir llygredig neu dir a dangloddwyd ac mae'r cofnodion wedi'u defnyddio gan ymchwilwyr y project 'Anabledd a'r Gymdeithas Ddiwylliannol' ym Mhrifysgol Abertawe. Bydd catalog cywir a manwl yn galluogi mynediad ac ymgysylltiad drwy'r agwedd ganolog hon o hanes y rhanbarth. Glo sbardunodd ddatblygiad Morgannwg, a ddenodd ei phoblogaeth ac a fwydodd ei phorthladdoedd a allforiodd ddeunyddiau a thechnoleg i'r byd. Roedd gwythiennau glo stêm meysydd glo canol de Cymru yn gofyn am ddulliau cynhyrchu arloesol i alluogi'r gwaith o dynnu'r glo o byllau dwfn. Roedd y datblygiadau o bwys rhyngwladol sylweddol ac yn denu diddordeb academiaidd o bedwar ban byd. Roeddent hefyd yn cynnal poblogaeth fawr mewn cymunedau sydd bellach yn cael eu hystyried yn ardaloedd o amddifadedd lluosog ond gyda diddordeb a balchder brwd yn eu treftadaeth. Mae gan gofnodion y Bwrdd Glo rôl bwysig i'w chwarae yn y gwaith o ymgysylltu â phobl yn y cymunedau hyn ac agor y gorffennol i genedlaethau'r dyfodol.





Mines (Coal), No. 18 Form.

COAL MINES REGULATION ACT, 1887.
(50 & 51 Vict. c. 58),
Section 33, and Schedule Three, Parts A. and B.

FORMS OF RETURNS.

These Forms to be correctly filled up by the Owner, Agent, or Manager, and sent to the Inspector of the District, on behalf of the Secretary of State, on or before 31st January, every year.

PART A.

Year ending 31st December, 1889.

Name of Mine Park
Situation of Mine Swanpark, Tenby
County Glamorgan
Name and Address of Owner (Company) The Ocean Coal Co. Ltd.
Tenby, Glamorganshire
Name of Manager Daniel Evans
No. of his Certificate 1824
Name of Under-Manager
No. and Class of his Certificate
Postal Address of Mine Swanpark, Tenby
Name and Address of H.M. Inspector of Mines for the District
J. T. Robson, Esq.,
WALTER ROAD,
SWANSEA.

Notes.—The Inspectors of Mines are not required to supply this Form unless application be made for a copy. It is imperative under the Act that the Return be sent within the time stated.

(1889-1900)




Mae'r casgliad yn cynnwys mwy na 50 o eitemau a gyflwynwyd rhwng 1957 a 2002. Mae yna gofnodion o weithfeydd glo yn y cyfnod cyn iddynt gael eu gwladoli, cofnodion o byllau a weithredwyd gan y Bwrdd Glo ei hun, a chynlluniau a ffotograffau yn ymwneud ag Ardal De Cymru gyfan. Cwblhawyd gwaith catalogio rhagarweiniol yn sgil grant gan Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru. Roedd y gwaith hwnnw'n canolbwyntio ar gofnodion yn deillio cyn ddyddiad y gweithredoedd breinio (1 Ionawr 1947). Nodwyd y pyllau a'r cwmnïau a ddaeth yn fentrau cyfunol yn ddiweddarach yn dilyn gwladoli ac roedd y wybodaeth a sicrhawyd yn gam amhrisiadwy yn y gwaith o baratoi ar gyfer y project cyfredol, llawer mwy uchelgeisiol. Dechreuodd ein harchifydd, Louise Clarke, ym mis Rhagfyr ac mae hi wedi bod wrthi'n catalogio ac yn postio diweddariadau ar gyfryngau cymdeithasol. Mae'r gwaith o recriwtio gwarchodwr wedi dechrau.

Y Casgliad

Cadwraeth

Mae cyllid Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru hefyd wedi galluogi'r gwaith manwl o restru cofnodion Heddlu De Cymru, didoli casgliad helaeth yr hanesydd cerbydau Chris Taylor i baratoi ar gyfer project mynegeo gyda gwirfoddolwyr, ac astudiaeth cwmpasu ar gasgliad Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd cyn cyflwyno cais arall am gyllid sylweddol.

Mae cyllid allanol ar gyfer projectau catalogio mawr yn hanfodol gan fod y nifer gostyngol o staff sydd gennym yn rheoli llif di-baid o eitemau newydd, sef ar hyn o bryd tua 4 eitem yr wythnos drwy gydol y flwyddyn. Mae eitemau nodedig eleni wedi cynnwys swmp o gofnodion yn deillio o ad-drefnu a chau llysoedd ynadon lleol a chynnydd mewn cofnodion cymdeithasau chwaraeon gan gynnwys casgliad gan gyn-Gapten Clwb Golff Brynhill, Y Barri. Mae'r rhain oll i'w croesawu. Cyfrannwyd casgliad sylweddol o gofnodion gan Glwb Genweirwyr Morgannwg a sefydlwyd ym 1904 ac sydd â mwy nag 800 o aelodau. Mae'r eitemau a gyflwynwyd yn dechrau yn 1925 ac yn cynnwys cofnodion, adroddiadau a thoriadau o bapurau newydd. Mae cofnodion fel y rhain yn cynnig cipolwg gwerthfawr i ni ar yr agweddau cymdeithasol ar y gamp o enweirio yn Ne Cymru a chyfraniad y Clwb at faterion amgylcheddol. Roedd yr eitem hon yn destun adroddiad ar BBC Wales News.








© Central Press Photographs Cyf.




Roedd casgliad difyr arall yn adrodd hanes gyrfa Richard Walker o Gaerdydd, a dreuliodd gyfnod yn yr Antartig yn y 1930au ar fwrdd y llongau arolygu John Briscoe a Discovery II. Ym mis Ionawr 1937 cafwyd adroddiad ei fod ef a phump o'i gydweithwyr ar goll mewn storm eira. Bu'r grŵp ar goll am ddeuddeg diwrnod; cafodd yr ymgyrch chwilio ac achub sylw mawr yn y wasg ym Mhrydain. Enillodd Richard Walker Fedal y Pegwn am helpu i dynnu sled gyda thri arall er mwyn achub y peilot Americanaidd, Lincoln Ellsworth a oedd wedi cwmpo i'r ddaear wrth ymdrechu i fod y person cyntaf i hedfan dros yr Antartig ym 1936. Ym mis Ionawr 1940 dyfarnwyd iddo Fedal Efydd Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub am helpu i achub criw llong bysgota. Mae'r casgliad yn cynnwys albwm a llyfr lloffion gyda ffotograffau o'r alldethiau i'r Antartig.

Yn ôl ym Morgannwg daeth eitemau i law gan sawl cangen leol o Blaid Cymru, gan gynnwys Merthyr Tudful, Llanbradach, Caerffili, Yr Eglwys Newydd a Dinas Powys, yn ogystal â phapurau Terence H O'Neill, un o ymgyrchwyr Plaid Cymru yng Nghaerdydd, a deunyddiau gan Alan Jobbins, sydd wedi bod yn gyfrifol am annog y Blaid i gyflwyno llawer o gofnodion cangen. Daeth eitem amserol i law ym mis Medi, sef cofnodion Pwyllgor Gwaredu Tomenni Aberfan ac Ynysowen, 50 mlynedd ar ôl y drasiedi. Ffurfiwyd y pwyllgor gan drigolion lleol i ymgyrchu i gael gwared â'r holl domenni.



Ymgysylltu

Mae cyllid grant hefyd yn allweddol o ran ymgysylltu â'r gymuned, yn aml yn ein harwain i feysydd newydd ac annisgwyl yn ogystal â sefydlu partneriaethau hirdymor. Arweiniodd mân gyfraniad at broiect blaenorol gydag Art Shell, sefydliad yng Nghaerdydd sy'n archwilio i ymarfer celfyddydol gyda sefydliadau nad ydynt yn rhai celfyddydol, at groesawu arlunydd preswyl gyda chymorth gan Made in Roath a Warp yn Oriel G39, a ariannwyd drwy Gyngor Celfyddydau Cymru. Galluogodd y project Tu Allan i'r Bocs yr artist Simon Fenoulhet i archwilio'r Casgliad drwy gyfrwng y synhwyrâu i ail-greu'r annirweddol. Rhannodd rai o'i ganfyddiadau mwyaf gweladwy ar y cyfryngau cymdeithasol a arweiniodd at erthyglau ar WalesOnline ac yn atodiad dydd Sadwrn y Western Mail. Roedd y ffotograffau o oleuadau stryd o gofnodion Cyngor Caerdydd ac o bysgod ac anifeiliaid morol gan J.J. Neale o longau pysgota Neale and West yn boblogaidd dros ben.



Daeth y cyfnod preswyl i ben gyda digwyddiad cyhoeddus yn yr Archifau. Trefnwyd bws i gludo gwesteion o ganol y ddinas. Ar y daith gweiniwyd cacennau a bisgedi a bobwyd gan Simon o rysetiau yn y Casgliad. Yn dilyn taith fer o amgylch yr adeilad bu'r artist yn sgwrsio am ei brofiad. Daeth y digwyddiad i ben gyda pherfformiad o 'A Song for Barry' (un o ddarganfyddiadau eraill Simon) gan fyfyrwyr Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Er bod y cyfnod preswyl wedi dod i ben, bwriedir cynnal perfformiad cyhoeddus o'r gân 'A Song for Barry' yn 2017 gyda myfyrwyr o Ysgol Gyfun y Barri. Rydym yn trafod projectau ar gyfer y dyfodol gyda'r partneriaid.



Mae partneriaethau llwyddiannus eraill a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn â chymorth grant allanol wedi cynnwys gwaith gyda Head4Arts, Gwasanaeth Cymunedol Gwirfoddol Cymru, project CAER Prifysgol Caerdydd, Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru (ar gyfer archif Mary Gillham) a Pobol Cyntaf Caerdydd. Dechreuodd y bartneriaeth gyda'r olaf o'r rhain gyda'u project i lunio arddangosfa yn seiliedig ar Ysbyty Trelái. Ffilmiwyd yr aelodau yn esbonio eu gwaith ymchwil a'r effaith a gafodd arnynt ar gyfer yr wythnos 'Archwilio eich Archif'. Yn ystod Cyngrhair y Cyngor Rhyngwladol ar Archifau yn Seoul, Korea yn 2016 cynhaliodd Adran Cymdeithasau Proffesiynol y Cyngor Rhyngwladol ar Archifau Wyl Ffilmiau ar Reoli Archifau a Chofnodion. Roedd 66 o ymgeiswyr o leoliadau byd-eang yn y tri chategori a chafodd naw o ffilmiau eu henwebu. Aethom ni ati i ymgeisio mewn dau gategori a chael ein henwebu am y ffilm Pobol Cyntaf Caerdydd yn y categori Pwysigrwydd a Gwerth Archifau. Ein ffilm ni oedd yr unig gais o'r DU i fynd trwodd i'r rownd olaf, a oedd yn ddigon cyffrous ynddo'i hun, er ein bod ni wedi gwirioni'n lân o glywed ein bod wedi ennill y categori. Cafodd ein llwyddiant sylw yn y wasg broffesiynol a lleol gan gynnwys darllediad byw ar Radio Cardiff. Mae'r ffilm ar gael i'w gwyllo ar ein sianel YouTube drwy ein gwefan.

Mynediad

Mae'r nifer sy'n ymweld â'r safle yn parhau yn sefydlog gyda 3,285 o ymweliadau unigol â'n hystafelloedd chwilio gan gyfanswm o bron 7,500 o ymwelwyr, tra bod 3,375 wedi cael ymateb o bell. Mae grwpiau sy'n ymweld â ni yn cael taith dywys o amgylch yr adeilad ac yn gweld detholiad o gofnodion sydd wedi'u teilwra i'w diddordebau; mae llawer yn cofrestru ac yn dychwelyd i wneud gwaith ymchwil. Ymhlith y grwpiau a groesawyd eleni roedd dosbarthiadau hanes teulu o Ronda Cynon Taf, Prifysgol Caerdydd, Y Bont-faen, Penarth a Threorci, haneswyr lleol o Don-teg a Phentre'r Eglwys, Rhondda Cynon Taf, clwb Dros 50 Oed Insole Court, Sefydliad y Merched yr Eglwys Newydd, aelodau Archifau Bay Life, cangen NADFAS De Cymru a Friends of Bristol Museum.

Mae grwpiau o fyfyrwyr cynradd, uwchradd ac addysg uwch yn ymweld â'r archifdy ar gyfer gweithdai; croesawyd 21 o ddosbarthiadau eleni, sef 496 o fyfyrwyr, o bob rhan o Forgannwg. Darparwyd cludiant ar gyfer rhai ymweliadau ysgol drwy gyllid grant. Gall ysgolion nad ydynt yn gallu ymweld â'r archifdy gyrchu'r gweithdai ar Forgannwg Oes Fictoria, Rhyfeloedd Byd 1 a 2, Glo a'r Dociau a Siopa yn y Gorffennol drwy Borth Dysgu Creadigol Llywodraeth Cymru ac fel deunydd i'w lawrlwytho oddi ar wefan yr Archifdy.



Cynhaliwyd Diwrnod Meddiannu llwyddiannus arall, y tro hwn gydag Ysgol Gynradd Goetre, Merthyr Tudful. Bu'r plant yn brysur ym mhob maes yn cofrestru ymwelwyr, cyrchu cofnodion yn yr ystafell chwilio, glanhau dogfennau a chwilio'r trapiau pryfed, adnabod ffotograffau, ysgrifennu blog, cymryd cyfrifoldeb am y cyfryngau cymdeithasol, a llawer mwy! Talwyd am y costau cludiant gan y Fenter Arloesi o Gaer i Bwll i Borthladd ar sail cyfnewid rhwng Caerdydd a Merthyr Tudful gydag Ysgol Gynradd Grangetown yn meddiannu Amgueddfa Castell Cyfarthfa yr un diwrnod. Roedd y cyfnewid yn dangos y cysylltiadau rhwng y Forgannwg ddiwydiannol a'r arfordir, ac yn darlunio rhyng-ddibyniaeth yr ardaloedd cynhyrchu glo a haearn a'r dulliau o'u hallforio o Ddociau Caerdydd. Roedd Comisiynydd Plant Cymru, Sally Holland, yn bresennol ar y dydd. Cafwyd help hefyd gan wirfoddolwr y cynllun Plant Mewn Amgueddfeydd sy'n astudio ym Mhrifysgol Caerdydd ar hyn o bryd, yn ogystal â'n gwirfoddolwyr ein hunain.

Bu staff yn hyrwyddo'r gwasanaeth addysgol mewn digwyddiadau gan gynnwys Digwyddiad Rhaglen Cyfoethogi Ysgolion Llywodraeth Cymru, rhaglen Meddwl Archifol Prifysgol Caerdydd a gwobrau hanes lleol Cymdeithas John Hopla ar gyfer ysgolion gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.



Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn parhau i brofi llwyddiant, o ran hyrwyddo'r gwasanaeth ac amlygu cyflawniadau a digwyddiadau heb ofyn am lawer o waith gan staff. Mae llawer o'n blogiau yn cael eu hysgrifennu gan wirfoddolwyr, ac mae papurau lleol a'r cyfryngau cymdeithasol yn atgynhyrchu'r storïau hyn ac yn eu dosbarthu'n ehangach fyth. Mae'r staff yn siarad ar y radio yn gyson ac wedi ymddangos ar y teledu sawl gwaith yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhaglenni teledu a ffilmwyd yn yr ystafell ymchwil wedi cynnwys yr enwogion lleol Colin Jackson, Ioan Griffiths a Suzanne Packer yn defnyddio'r archifau i gyflwyno gwybodaeth am amrywiaeth o destunau.

Mae'r ystafell newydd drws nesaf i'r ystafell ymchwil yn cynnig hyd yn oed mwy o gyfle i ni gynnal digwyddiadau ac arddangosfeydd dros dro. Yn ychwanegol at gyflwyniad diwedd project gan Simon Fenoulhet ar Tu Allan i'r Bocs, mae awduron wedi cyflwyno eu cyhoeddiadau diweddar mewn darlithoedd cyhoeddus: *A lingering fear: the story of Pontypridd Workhouse* gan Keith Jones, *Bad Girls: Crime and prostitution, 1870-1914* gan Elizabeth Belcham, *Voices of Mametz Wood* gan Dr Jonathan Hicks, a *Wales-China* gan Ena Neidergang. Bu Andrew Hignell yn ystyried hanes criced yn Ne Cymru yn *From Meadowland to Moneyspinner* a rhoddodd Dylan Foster Evans gyflwyniad yn y Gymraeg ar Enwau Lleoedd Caerdydd. Telir y costau ychwanegol, sydd weithiau'n cynnwys lluniaeth, ar gyfer y digwyddiadau hyn ag arian grant. Cafodd y te criced groeso mawr!

Mae'r arddangosfeydd a gynhelir fel arfer yn gysylltiedig â phrojectau partneriaeth. Cynhyrchwyd *Lessons In Time* gan People Like Us yn gweithio ar addysg yn Nwyrain Caerdydd; roedd project Head4Arts *Who Do I Think I Was* yn ystyried yr ymatebion creadigol i'r Rhyfel Byd Cyntaf gyda chymunedau ym Mlaenau'r Cymoedd yn seiliedig ar ddogfennau yn Archifau Morgannwg a Gwent; roedd arddangosiad Pobol Cyntaf Caerdydd yn benllanw eu project treftadaeth amlddiwyllynnol. Mae'r arddangosfeydd a sgysiau yn hyrwyddo ein llwyddiannau partneriaeth ac yn denu cynulleidfaoedd gwahanol i'r adeilad.

Mae'n bleser hefyd adrodd bod ein rhwydweithio rhyngwladol wedi parhau â chyswllt rheolaidd gan gydweithwyr yn gofyn am gyngor, ac ymweliad meincnodi gan gynrychiolwyr o Botswana dan arweiniad Mrs Tlhabologo Ndzinge, Uwch Reolwr yn y Weinyddiaeth Tiroedd a Thai. Nod yr ymweliad oedd cynorthwyo â chynllunio adolygiad o'r gwaith o reoli cofnodion ac archifau yn Botswana, 50 mlynedd ar ôl annibyniaeth. Galwodd Llysgennad newydd yr Wcráin i'r DU, Natalia Galibarenko, yn yr Archifau yn ystod ei hymweliad â Chaerdydd. Roedd ganddi ddiddordeb yn yr adeilad a gwelodd ddogfennau a ffotograffau o Hughesovka, Donetsk bellach, y ddinas yn Wcráin a sefydlwyd gan y diwydiannwr o Ferthyr, John Hughes, ym 1870.



Staff

Mae galw am arbenigedd ein staff yn lleol hefyd. Eleni rydym wedi cyfrannu at y Panel Achredu Archifau a Gweithgor Arolwg Cenedlaethol y Gymdeithas Archifau a Chofnodion yn y DU. Yng Nghymru, mae staff yn gwasanaethu ar y grwpiau Strategaeth Cadwraeth Cenedlaethol, y Bwrdd Project Gwarchodaeth Ddigidol, Grŵp Marchnata Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru a grŵp Rhaglen Fusion ar gyfer Llywodraeth Cymru. Rydym wedi bod yn bresennol yng nghyfarfodydd cynllunio Cymru'n Cofio yn seiliedig ar goffau'r Rhyfel Byd cyntaf ac yn nigwyddiadau Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn Ne Cymru. Gofynnwyd am ein barn ynghylch y gwerthusiadau ffurfiol ar y rhaglen Fusion, cynllun strategol Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a chynigion ar gyfer sefydlu darpariaeth genedlaethol ar gyfer cofnodion pensaernïol.

Er nad yw staff yn derbyn gwahoddiadau i siarad yn gyhoeddus yn aml iawn gwnaed rhai eithriadau eleni i rannu'r profiad o gyllid grant drwy'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Llawysgrifau Cenedlaethol yn y Big Reveal, cynhadledd Cymru gyfan, ac yng nghynhadledd ARA Cymru, a rhannwyd strategaethau cynhyrchu incwm yn Fforwm Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru.





Mae gwirfoddolwyr wedi cyfrannu 6763 awr i'r gwasanaeth eleni, sydd gyfystyr a 4 aelod o staff amser llawn. Mae eu horiau wedi'u gostwng gan fod llai o staff i'w goruchwyllo ond mae eu cyfraniad yn parhau'n hanfodol. Maent wedi bod yn gweithio ar waith digido, glanhau, mynegeo a thrawsysgrifio mewn cysylltiad â phynciau mor amrywiol â Chytundebau Criwiau Caerdydd, llyfrau lloffion Sefydliad y Merched, cofnodion ysbytai, cofrestri troseddwy'r Heddlu Caerdydd, cofrestri Undeb Deddf y Tlodion, dyddiaduron Richard Fothergill, eitemau o'r Cwrt Bach ac effaith y frwydr i sicrhau pleidlais i ferched ar gymunedau lleol. Mae un o'n gwirfoddolwyr cyson wedi bod yn ymchwilio i gyflogeion Corfforaeth Caerdydd a laddwyd yn gwasanaethu yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae hi a'r Uwch Archifydd wedi cyflwyno rhai o'r storïau mewn gwasanaethau coffa yng Nghaerdydd eleni. Mae myfyrwyr Cadwraeth o Brifysgol Caerdydd yn cydweithio â'r tîm ar drwsio cyfrolau, gan gyfnewid eu gwybodaeth academiaidd ddiweddaraf am brofiad ymarferol yn y byd go iawn.


Y dyfodol

Mae cynhyrchu incwm, cyllid grant ac arbedion yn y gyllideb bellach yn ganolog i'n dyfodol. Mae paneli solar ar y to eisoes wedi gostwng costau trydan, mae'r holl ystafelloedd gwag yn yr adeilad yn cael eu rhentu ac mae gan y Tîm Cadwraeth ei darged incwm ei hun o ran gwerthu bocsys a wneir i fodloni chwaeth y cwsmer, cyngor a gwaith mainc. Rydym yn ystyried cyflwyno taliadau ar-lein drwy Gyngor Caerdydd a chynyddu mynediad at ddelweddau digidol o'r Casgliad ar sail talu-a-gweld a gwefannau tanysgrifio, ac wedi creu bocs cyfraniadau mawr ar gyfer arian mân. Mae trefniadau staffio yn dynn ac nid oes unrhyw hyblygrwydd o ran y gyllideb ond mae atebion arloesol yn dod i'r amlwg a bydd y gwasanaeth yn goroesi. Byddai eithriad neu ostyngiad o ran ardrethi busnes yn gwneud llawer i adfer ein cyllideb a galluogi'r gwaith o gynllunio'n gynaliadwy; mae'r lobïo yn parhau ac yn y cyfamser mae gofyn i ni godi bron 18% o'n costau gweithredu ein hunain yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

Efallai na allwn fodloni'r safonau uchel yr ydym wedi ymrwymo iddynt bob tro ond rydym yn benderfynol. Bydd 2017 yn dwyn i gof geiriau Becket *"Try again. Fail again. Fail better."*



Susan Edwards
Archifydd Morgannwg





	Archifau Morgannwg Clos Parc Morgannwg Caerdydd CF11 8AW		029 2087 2200
	Glamro@caerdydd.gov.uk		www.facebook.com/glamarchives
	www.archifaumorgannwg.gov.uk		@GlamArchives